Senedd Cymru | Welsh Parliament
**Ymchwil y Senedd | Senedd Research**

# Dylid diwygio Bil Diwygio'r Senedd i ddarparu bod etholaethau'n cael cymeradwyo codiadau cyflog yr Aelodau o'r Senedd

Y Pwyllgor Deisebau | 10 Mehefin 2024
Petitions Committee | 10 June 2024

**Cyfeirnod:** SR24/8458/14

**Rhif y ddeiseb:** P-06-1424

**Teitl y ddeiseb:** Dylid diwygio Bil Diwygio'r Senedd i ddarparu bod etholaethau'n cael cymeradwyo codiadau cyflog yr Aelodau o'r Senedd

**Geiriad y ddeiseb:**

Rydym yn galw ar y Senedd i ddatblygu a sefydlu system gymeradwyo ar gyfer pob codiad cyflog a ddyfernir i'r Aelodau ac i'r weithdrefn hon gael ei hymgorffori ym Mil Diwygio'r Senedd.

Drwy wneud hyn, byddai unrhyw godiad cyflog a argymhellir gan y Bwrdd Taliadau yn mynd gerbron etholwyr pob Aelod ar gyfer pleidlais rwymol i gymeradwyo neu wrthod rhoi'r codiad cyflog cytunedig i'w Haelodau unigol, a hynny ar sail eu perfformiad fel cynrychiolwyr da.

Byddai'r system hon yn cael ei defnyddio ar gyfer cynrychiolwyr etholaethol a chynrychiolwyr rhanbarthol.

Byddai'r system a ddisgrifir uchod yn caniatáu i'r etholwyr roi adborth clir ac effeithiol i'r Aelodau drwy gyplysu codiadau cyflog yr Aelodau â'u perfformiad gwirioneddol wrth wasanaethu er budd eu pleidleiswyr, a byddai hefyd yn arbed arian i gyllideb Cymru!

Gellid cynnal y bleidlais ar-lein i arbed costau ymhellach i gyllideb Cymru.

# 1. Tâl yr Aelodau

Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd sy'n pennu cyflogau, pensiynau a lwfansau Aelodau o'r Senedd. Sefydlwyd y Bwrdd gan *Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010*.

Mae'r Bwrdd yn cyhoeddi Penderfyniad ar ddechrau tymor pob Senedd i nodi'r rheolau ynghylch yr hyn y mae gan Aelodau hawl i'w hawlio, a chaiff ei adolygu'n flynyddol wedyn.

Daeth Penderfyniad 2024-25 ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau i rym ar 1 Ebrill 2024

Mae Pennod 3 o'r Penderfyniad yn nodi taliad yr Aelodau.

Ar hyn o bryd, cyflog Aelod yw £72,057 ynghyd ag unrhyw gyflog ychwanegol y mae ganddynt hawl iddo fel deiliad swydd, er enghraifft, os yw'n Weinidog neu'n Gadeirydd Pwyllgor.

Caiff tâl Aelodau a deiliaid swyddi ei addasu ym mis Ebrill bob blwyddyn gan y newid yn yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, enillion canolrif gros blynyddol cyflogeion amser llawn yng Nghymru, dros y 12 mis blaenorol. Ni chaiff yr addasiad hwn fod yn is na sero y cant ac yn ddim uwch na thri y cant.

Ni chaiff y Bwrdd wneud mwy nag un penderfyniad ar gyflogau Aelodau ym mhob tymor y Senedd, ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol.

Mae'r Bwrdd yn cynnal adolygiad thematig o'r Tâl a Chymorth Personol i Aelodau fel rhan o'i rhaglen waith strategol yn y Chweched Senedd. Bydd hyn yn llywio'r adolygiadau blynyddol o'r Penderfyniad a'r Penderfyniad newydd ar gyfer y Seithfed Senedd.

# 2. Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

Cyflwynwyd Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) ar 17 Medi 2023.

Mae'r Bil yn mynd i'r afael â rhai o'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd, a gyhoeddodd adroddiad ym mis Mai 2022.

Mae'r newidiadau a gynigir gan y Bil yn cynnwys:

- Disodli'r model etholaeth a rhanbarth gydag etholaethau aml-aelod mwy;
- Cynyddu nifer yr Aelodau o'r Senedd o 60 i 96;
- Cyflwyno system etholiadol gyfrannol rhestr gaeedig i ethol Aelodau;
- Dychwelyd i'r arfer o ethol y Senedd am dymhorau o bedair blynedd;
- Galluogi'r Senedd i ethol ail Ddirprwy Lywydd;
- Cynyddu uchafswm Gweinidogion Cymru o 12 i 17 (gyda'r potensial i'w cynyddu i 19);
- Rhoi darpariaethau ar waith ar gyfer cynnal adolygiadau o ffiniau etholaethol y Senedd; ac
- Ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr i'r Senedd, ac Aelodau ohoni, gofrestru i bleidleisio mewn cyfeiriad yng Nghymru.

Pleidleisiodd y Senedd o 43 i 16 i dderbyn y Bil yn y trafodion Cyfnod 4 ar 8 Mai 2024.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.